**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

12 Mai 2020

Annwyl John,

Yn dilyn fy llythyr ar 23 Ebrill ynghylch atal craffu Cyfnod 2 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) dros dro, rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am gytuno ar y cynnig hwn.

Roedd yn bwysig bod y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol a'r penderfyniad ariannol wedi gallu mynd rhagddi ar 8 Ebrill, gan ei bod wedi ein galluogi ni i gynnwys gwaith ar y Bil yn ein cynlluniau ar gyfer materion y byddwn am fwrw ymlaen â nhw pan fydd sefyllfa COVID-19 yn caniatáu hynny. Ar hyn o bryd mae fy swyddogion, yn cynnwys y rheini yn Nhîm y Bil, yn brysur iawn yn ymdrin â deddfwriaeth frys, yn cefnogi llywodraeth leol ac yn ystyried pa fesurau y gallai fod eu hangen er mwyn lleihau effeithiau'r pandemig.

Mae cyfreithwyr y Bil wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r prif reoliadau ar coronafeirws a deddfwriaeth benodol llywodraeth leol, yn ogystal â nifer o faterion eraill sy'n rhan o'r ymateb i COVID-19. Mae hyn wedi effeithio ar y gwaith o ddatblygu gwelliannau i'r Bil, ac o ganlyniad yr amserlen ar gyfer Cyfnod 2. Rwyf hefyd yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i'r Pwyllgor allu canolbwyntio ar graffu ar yr ymateb i COVID-19 ar hyn o bryd.

Fel rwyf eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor, mae swyddogion wedi bod yn ymgysylltu'n helaeth gyda CLlLC, cynrychiolwyr o lywodraeth leol a'r trydydd sector drwy'r rhwydweithiau sydd ar gael ynghylch cynllunio ar gyfer gweithredu'r Bil. Ar hyn o bryd, mae'r rhanddeiliaid hyn hefyd yn gweithio ar yr ymateb i'r pandemig. Felly, bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn ailgychwyn pan fydd hynny'n briodol.

Rwyf eisoes wedi dweud na fydd y Llywodraeth bellach yn cyflwyno gwelliannau yn ymwneud â hawl carcharorion i bleidleisio yng Nghyfnod 2. Mae'n ddrwg iawn gen i nad oes modd i ni fwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor hwn o ran hawl carcharorion i bleidleisio, ond rwy'n derbyn nad yw hyn yn bosibl o dan yr amgylchiadau presennol. Rwyf hefyd wedi bod yn ystyried cynnwys y Bil yn ofalus, a ph'un a ddylem barhau i fwrw ymlaen â rhai o'r gwelliannau fel y bwriadwyd yn flaenorol, neu beidio â chadw darpariaethau eraill o fewn y Bil. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth hefyd wedi nodi rhai pethau y gallwn eu dysgu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

o'r ymateb i'r pandemig, megis mewn perthynas â chyfarfodydd o bell, a fyddai'n fuddiol eu hymgorffori yn y Bil.

Felly gallaf nawr gadarnhau, yn ogystal â'r gwelliannau a gynigiwyd i hawl carcharorion i bleidleisio, na fyddaf yn bwrw ymlaen â gwelliannau Cyfnod 2 i ddarparu ar gyfer atal taliadau cydnabyddiaeth dros dro, lle nad yw aelodau'n gallu gweithredu, ac na fyddaf yn bwrw ymlaen â darpariaethau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu gweithredol mewn perthynas â meiri etholedig. Mae'r rhain yn feysydd cymhleth o'r gyfraith ac mae pob gwelliant yn galw am ystyriaeth ofalus iawn er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Gan fod adnoddau y Gwasanaethau Cyfreithiol yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â COVID-19 ar hyn o bryd, nid oes digon o adnoddau ar gael i roi'r sylw manwl ac eang angenrheidiol i'r materion hyn.

Gan ystyried holl sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor, rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i ddileu'r darpariaethau presennol mewn perthynas â phŵer Gweinidogion Cymru i sefydlu cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol ar gyfer Cymru Gyfan, a disgresiwn Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau treialu ar gyfer etholiadau o'r Bil. Byddaf hefyd yn cyflwyno gwelliannau i weithredu nifer o argymhellion y Pwyllgor a nifer o welliannau sy'n dechnegol eu natur.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r addasiadau a wnaed gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, sy'n ymwneud â mynychu o bell ar gyfer cyrff llywodraeth leol gan gynnwys cynghorau cymuned, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae rhanddeiliaid wedi croesawu'r rhain, a'm bwriad yw ceisio gwneud y newidiadau hyn yn rhai parhaol, drwy wneud gwelliant i'r Bil, er gallai cyfyngiadau amser olygu y bydd hyn yn digwydd yng Nghyfnod 3.

Rwy'n nodi bod y Pwyllgor Busnes wedi ystyried ein cynigion ar gyfer diwygio'r amserlen, ac wedi cyfeirio'r mater at y Pwyllgor. Yn sgil y cam gweithredu a amlinellir uchod i leihau nifer y gwelliannau gan y Llywodraeth i'r Bil, byddwn yn awgrymu y gallai gwaith y Pwyllgor i ystyried gwelliannau Cyfnod 2 gael ei wneud mewn un diwrnod o bosibl.

Edrychaf ymlaen at gael symud ymlaen â'r Bil gyda'r Pwyllgor yn yr hydref.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government